

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyhoeddus cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth , **12 Mehefin 2018** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-06/18: Presennol

Cadeirydd : Cyng Elizabeth George;

Cyng. Robert Cadwalader; Cyng. Phil Jones; Cyng. Henry Jones; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Robert T Price; Cyng Dafydd Lloyd; Cyng Wayne Roberts; Cyng Eirwyn Williams; Cyng. Sian Williams
Clerc – Dr Catrin Jones.

2-06/18 Ymddiheuriadau:

Cyng. William A Evans;

3-06/18: Datgan diddordeb

Cyng Phil Jones ar gyfer eitem 7-06/18 Ceisiadau Cynllunio –rhif cais C18/0457/35/LL

4-06/18 Cadarnhau cofnodion mis Mai 2018

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

5-06/18 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

- a. Nodwyd bod y Cadeirydd wedi arwyddo ffurflen derbyn swydd ar gyfer 2018-19 yn unol â phenderfyniad y Cyngor yng nghyfarfod Mis Mai.
- b. Byddai chwech yn mynychu agoriad swyddogol y Tŷ Clwb Newydd gan y Clwb Tennis am 2.00 o'r gloch, 17 Mehefin 2018.
- c. Un Llais Cymru - i WEITHREDU 2018 Model Reolau Sefydlog Newydd - e-bost 7 Mehefin 2018 - Reolau Sefydlog Newydd 2018 sy'n cymryd lle'r rhai a gyhoeddwyd yn 2013.
Byddai angen i'r Cyngor ystyried a mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog Newydd sydd wedi eu diweddarau i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol a ddigwyddodd er 2013. Cyfeirir y rhain i'w hystyried gan yr Is- Grŵp Cyllid i adrodd nôl i'r Cyngor maes o law gyda'i awgrymiadau.
- d. Nodwyd bod penderfyniad gan yr ICO i ymchwilio i gŵyn o dan ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 -e-bost 7 Mehefin
- e. Datblygiad newydd Waun Helyg, Criccieth - e-bost 8 Mehefin gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd yn gwahodd sylwadau'r Cyngor Tref am enw i'r datblygiad. Byddai hwn ar agenda'r cyfarfod nesaf.

6-05/18: Gohebiaeth

- a. Llythyr gan Gyngorydd yn sefyll lawr o'i swyddogaeth Cyngorydd
Nodwyd bod y Cadeirydd wedi derbyn llythyr oddi wrth y Cyng Elizabeth Regan yn cadarnhau ei phenderfyniad i ymddiswyddo o'i swydd Cyngorydd. Byddai'r Clerc yn rhybuddio'r Swyddog Cofrestru Etholiadol er mwyn dilyn y broses briodol i roi rhybudd o'r sedd wag achlysurol. Os na fydd cais am etholiad bydd y Cyngor yn medru cyfethol person i lenwi'r swydd wag cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Penderfyniad: Diolchwyd i'r Cyng Elizabeth Reagan am ei chyfraniad a'i gwaith fel Cyngorydd yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Byddai'r mater ar agenda nesaf y cyfarfod yn dilyn canlyniad y rhybudd.

- b. Cwyn i'r Ombwdsmon – canlyniad
Nodwyd canlyniad i'r cwynion isod a wnaed i'r Ombwdsmon ym Mis Mai gan unigolyn:
- Cwyn yn erbyn Cyngor Tref Criccieth: canlyniad - Yr Ombwdsmon wedi penderfynu na ddylid ymchwilio i'r gwyn.
 - Cwyn yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad - Yr Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ag ymchwilio i'r gwyn hon.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

- c. Derbyniwyd gohebiaeth gan Criccieth yn ei Blodau - e-bost 1 Mehefin 2018 yn holi nifer o gwestiynau ac yn nodi ei bod yn hapus i Gyngor Gwynedd i adnewyddu'r bocsiâu mawr ger y Pines yn ôl penderfyniad y Cyngor. Nodwyd hefyd y dyddiad tebygol o 3 Gorffennaf ar gyfer casglu sbwriel. .

Penderfyniad: Y Clerc i ymateb -

- Y Cyng Robert Cadwalader i yrru copi o fap Criccieth mae wedi ei baratoi i'r Clerc at ddefnydd gan Criccieth yn ei Blodau
 - Nad oedd y Cyngor yn gwybod pwy oedd berchen y darn tir o'r stesion i'r prif lon ac y dylai Criccieth yn ei Blodau holi Cyngor Gwynedd
 - I gadarnhau bod y darn gwair ger y Castle Inn ar les iddynt gan Gyngor Gwynedd.
- d. Gohebiaeth yn gofyn am hawl i osod plac er cof -e-bost 2 Mehefin 2018

Derbyniwyd gohebiaeth yn gofyn am hawl i roi plac er cof ar fainc ar y Promenâd yng Nghriccieth -

Penderfyniad: Y dylai'r unigolyn gyfeirio'r cais i Gyngor Gwynedd gan nad oedd y tir yn perthyn i'r Cyngor Tref.

- e. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd – Gwynedd a Môn – Ymgynghori cyhoeddus
Canllawiau Cynllunio Atodol:

- - Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid
- - Cymysgedd Tai

Ymgynghoriad cyhoeddus o 24 Mai tan 5 Gorffennaf 2018.

Penderfyniad: Unigolion i ymateb i'r ymgynghoriad yn ôl eu dymuniad.

- f. Gorchymyn Cyngor Gwynedd - Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd Gorchymyn Amrywio (Ardal Dwyfor) 2018 - e-bost 22 Mai 2018
Nodi bod y gwaharddiad parcio "dim aros ar unrhyw adeg" ar ffordd ddi-ddosbarth Lôn Felin - ochr orllewinol y ffordd o'r orsaf Bad Achub am bellter o 51 metr i gyfeiriad y gogledd at 'Blue China' ac ar ochr ddwyreiniol y ffordd gyferbyn a'r Bad Achub am bellter o 32 metr i gyfeiriad y gogledd yn weithredol ers 1 Mehefin 2018.

Penderfyniad: Croesawu'r wybodaeth a hefyd cytuno y dylai'r Cyng Wayne Roberts rhybuddio swyddogion y Bad Achub o'r newid.

- g. Cyngor Gwynedd – Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Rhaglen waith
Mis Mehefin 2018 – llythyr 1 Mehefin 2018

Derbyniwyd llythyr yn nodi:

- Prif doriad gwledig ffyrdd sirol rhwng yr wythnos olaf ym Mehefin a chanol Gorffennaf
- Gwaith slyri ar droedffyrdd – Lôn Dinas a Rhes Ffynnon
- Draeniad – Garej Londis
- Gwaith ar bafin - Caffi Cwrt

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

- h. Un Llais Cymru - Hyfforddiant Gogledd Cymru - e-bost 22 Mai 2018
Derbyniwyd y rhestr y cyrsiau hyfforddiant ar gael mis Mehefin 2018

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth a gofyn i Un Llais Cymru a oedd yn fwriad i drefnu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn lleoliadau yn nes i Griccieth.

- i. Un Llais Cymru - -Heneiddio'n Dda yng Nghymru - Adroddiadau Cynnydd - e-bost 25 Mai 2018 .

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

- j. Cyfarfod Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr 14 Mai 2018 - e-bost 22 Mai

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

- k. Gwynedd Ddigidol – Mynediad Cyhoeddus i WiFi mewn Cymunedau Gwledig
Nodwyd yn y cyfarfod diwethaf bod Cyngor Gwynedd wedi llwyddo i gael arian trwy Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig i ddatblygu prosiect Gwynedd Ddigidol:
Mynediad cyhoeddus i Wifi mewn Cymunedau Gwledig. Roedd hwn yn gyfle gwych i'w ddefnyddio er budd unigolion a busnesau ac i ddarparu Wi-Fi am ddim i'r cyhoedd. Roedd y Clerc wedi mynychu sesiwn gwybodaeth ym Mhorthmadog ar nos Fawrth 15 Mai.

Penderfyniad: Codi'r mater yn y gweithdy Cynllun Cymunedol ar 13 Mehefin.

7-06/18: Ceisiadau Cynllunio

- a. C18/0457/35/LL – Estyniad un llawr ar gefn yr eiddo – 50 Ty'n Rhos, Criccieth, LL52 0BH

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

Ni wnaeth y Cyng Phil Jones gymryd unrhyw ran yn y drafodaeth na'r penderfyniad gan iddo ddatgan diddordeb ar gychwyn y cyfarfod.

8-06/18 Archwiliad o Gyfrifon y Cyngor Tref ar gyfer 2017-18

- a. Archwiliad Mewnol
Nodwyd bod y Clerc wedi ysgrifennu at yr Archwiliwr Mewnol gyda phenderfyniad y Cyngor yn y cyfarfod diwethaf yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiad mewnol - roedd yn aros am ymateb.
- b. Archwiliad Allanol
Cadarnhawyd bod y Clerc wedi trefnu bod yr hysbysiad yn ymddangos ar hysbysfwrdd y Cyngor ac ar safle We'r Cyngor am y cyfnod priodol a nodwyd gan yr Archwiliwr Allanol (BDO) er mwyn rhoi cyfle i'r cyhoedd weld y cyfrifon. Roedd angen cyflwyno'r wybodaeth

archwilio i'r BDO a'r dystiolaeth y gofynnwyd amdano erbyn 9 Gorffennaf 2018. Byddai'r Cadeirydd a'r Clerc yn arwyddo'r dystiolaeth ar ran y Cyngor.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

9-06/18 Polisi Iaith y Cyngor Tref – ystyriaeth o bolisi dempled Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer Cyngorau Tref a Chymuned

Nodwyd yn y cyfarfod diwethaf bod Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi templed polisi iaith ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref a oedd angen sylw gan y Cyngor Tref i benderfynu ar beth sydd i'w fabwysiadu a'i gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Comisiynydd. Roedd nifer o bethau yn y templed yn orfodol a rhai yn ddewisol

Yr hyn sydd rhaid gwneud yw:

- Mabwysiadu pob mesur testun DU a chefnidir gwyn;
- Dewis pa fesurau dewisol i'w mabwysiadu mewn testun du ar gefndir llwyd.

Penderfyniad: Cyfeirio'r mater i'r Is-grŵp Cyllid ac i addasu enw a chylch gorchwyl y Grŵp i gynnwys materion Rheolaethol. Byddai cylch gorchwyl yn cael eu paratoi i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

10-06/18 Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth – cofnodion cyfarfod 3 Mehefin2018

Cynhaliwyd y cyfarfod i drafod digwyddiadau cyhoeddus ar sail y gwaith y prosiect i'w cynnal ym Mis Tachwedd 2018 i gyd-fynd gyda chanmlwyddiant gorffen y Rhyfel Byd Cyntaf:

1. Trefniadau 11/11/18
2. Trefniadau arddangosfa 3/11/18-11/11/18
3. Gwaith estynedig ar y gweill
4. Beacon
5. Digwyddiad cyhoeddus 03/11/18

Penderfyniad: Cymeradwyo'r cofnodion a chyfeirio'r cais i osod y Beacon i Swyddog Cyngor Gwynedd er mwyn cael y canllawiau priodol. Byddai angen i'r Is-grŵp Mwynderau gwrdd er mwyn gwneud y paratodau ac asesiadau angenrheidiol. Cytunwyd i drefnu archebu'r Beacon - roedd y Cyngor eisoes wedi cytuno i'w brynu ar gyfer y digwyddiad.

11-06/18: Cynllun Cymunedol Criccieth - diweddariad

Nodwyd bod yr ail weithdy i'w gynnal ar nos Fercher 13 Mehefin yn y Neuadd Goffa -roedd nodiadau'r gweithdy cyntaf wedi ei chylchredeg. Roedd busnesau Criccieth wedi cael gwahoddiad i'r gweithdy hwn.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth.

12-06/18: Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell

Y Clerc wedi sgwennu eto at Gyngor Gwynedd yn dilyn y cyfarfod diwethaf ac nid oedd wedi derbyn ymateb.

Penderfyniad: Cytuno y dylai'r Cyng Eirwyn Williams i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd i drefnu cyfarfod ar y mater.

13-06/18: Torri gwair yn y dref

Penderfynwyd yn y cyfarfod diwethaf i ofyn i Gyngor Gwynedd i amseru'r toriadau gwair wythnos olaf bob mis, ac roedd amserlen wedi ei gylchredeg i'r Cynghorwyr ar gyfer sylwadau. Roedd un sylw wedi ei dderbyn l i gynnig torri gwair mis Awst wythnos cychwyn 20 Awst gan fod y 27 Awst yn Wyl Banc.

Penderfyniad: Derbyn y cynnig a gofyn i Gyngor Gwynedd addasu'r rhaglen.

14-06/18: Parcio yng Nghriccieth

Nodwyd bod y bolardiau wedi eu gosod ger Dylan's

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth.

15-06/18 Torri coed yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd

16-06/18 Meinciau Tref Criccieth

Yn dilyn e-byst blaenorol roedd y Clerc wedi ffonio i ofyn am adborth gan Gyngor Gwynedd am yr amserlen a'r broses ar gyfer ail-osod y meinciau - roedd wedi cael e-bost yn cadarnhau'r sefyllfa a bod y swyddog wedi cwrdd gyda chontractwr yn ddiweddar iawn i drafod y gwaith ac yn disgwyl amcan bris gan y contractwr maes o law. Yn anffodus oherwydd diffyg capasiti a llwyth gwaith sylweddol nid oedd y staff Morwrol yn gallu ymgymryd â'r gwaith ac roedd yn mawr obeithio y gellir cwblhau'r gwaith cyn diwedd tymor yr haf".

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth, gan nodi na fy ddim cost i'r Cyngor Tref ar gyfer y gwaith yma.

17-06/18: Derbyniadau

18-06/18: Taliadau

• Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE)	£72.70 (siec 101244)
• Cyflog y Clerc (Mai)	£660.18(siec 101245)
• Costau Clerc	£120.15.(siec 101246)
• Siop Copi	£202.44 (siec 101247)
• Gwasg Cymru	£9.50 (siec 101248)
• Gwasg Cymru	£8.00 (siec 101248)*

*Ers cyhoeddi'r agenda roedd bil ychwanegol o £8.00 ar gyfer Gwasg Cymru – cyflwynwyd i'w dalu yn y cyfarfod.

Rhodddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Fawrth 10 Gorffennaf 2018.**

****Bydd y rhaglen yma yn cau 1 Gorffennaf 2018****